2010-11

Mehefin 2011

**Awdur: Anthony Barrett** **Cyf: 313A2011**

# Amlinelliad o'r Archwiliad Ariannol

# **Cyngor Gwynedd**

## Cynnwys


| | |
|---|---|
| **Amlinelliad o'r Archwiliad Ariannol** | |
| Rolau a chyfrifoldebau | 4 |
| Y dull archwilio | 5 |
| Cyflwyno adroddiadau | 8 |
| Ffi archwilio | 9 |
| **Atodiadau** | |
| Elfennau allweddol o'r gwaith archwilio | 10 |
| Tîm yr archwiliad ariannol | 11 |

## Statws yr adroddiad hwn

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Cyngor Gwynedd fel rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol, y Cod Ymarfer Archwilio a'r Datganiad o Gyfrifoldebau a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Nid oes unrhyw gyfrifoldeb ar Swyddfa Archwilio Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol a'i staff) na, lle y bo'n gymwys, yr archwilydd penodedig, mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn unigol, nac i unrhyw drydydd parti.

Os ceir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru (a, lle y bo'n gymwys, yr archwilydd penodedig) yn drydydd parti perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn infoofficer@wao.gov.uk.

## Rolau a chyfrifoldebau

1. Paratowyd yr Amlinelliad hwn o'r Archwiliad Ariannol i fodloni gofynion y safonau archwilio ac arferion archwilio priodol. Mae'n rhoi amlinelliad i'r Cyngor o'r gwaith archwilio ariannol sydd ei angen ar gyfer datganiadau ariannol 2010-11.
2. Ers 1 Ebrill 2005, mae swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 wedi cynnwys penodi archwilwyr allanol (Archwilwyr Penodedig) ar gyfer cyrff llywodraeth leol.
3. Fel Archwilydd Penodedig, mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i mi ystyried ac ardystio cyfrifon y Cyngor, gan fodloni fy hun bod y cyfrifon:
   - yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol y Cyngor;
   - yn cydymffurfio â'r holl ofynion deddfwriaethol perthnasol;
   - wedi'u paratoi yn unol ag arferion cyfrifyddu priodol.
4. Mae hefyd yn ofynnol i mi:
   - fodloni fy hun bod y Cyngor wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau;
   - ardystio bod yr archwiliad wedi cael ei gwblhau yn unol â Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.
5. Nid yw'r archwiliad yn golygu nad oes angen i'r Cyngor gyflawni'r cyfrifoldebau canlynol:
   - rhoi systemau rheolaeth fewnol ar waith i sicrhau rheoleidd-dra a chyfreithlondeb trafodion a sicrhau bod ei asedau'n ddiogel;
   - cadw cofnodion cyfrifyddu cywir;
   - paratoi Datganiad o Gyfrifon yn unol â gofynion perthnasol;
   - sefydlu ac adolygu'n barhaus drefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau.
6. Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn nodi hawliau'r cyhoedd ac etholwyr i archwilio datganiadau ariannol y Cyngor, gofyn cwestiynau i mi, fel yr Archwilydd Penodedig, am y cyfrifon a, lle y bo'n briodol, herio eitemau yn y cyfrifon.
7. Nodir gofynion allweddol yr Archwilydd Cyffredinol a'r Archwilydd Penodedig yn Atodiad 1.
8. Caiff dogfen ar wahân, sef Rhaglen Reoleiddio'r Archwilydd Cyffredinol ar gyfer Archwilio Perfformiad, ei chyhoeddi yn nodi'r gwaith sydd i'w gyflawni gan yr Archwilydd Cyffredinol o dan Fesur Llywodraeth Leol 2009.
9. Mae Amlinelliad arall o'r Archwiliad Ariannol wedi cael ei gyhoeddi mewn perthynas â'r archwiliad o gyfrifon Cronfa Bensiwn Gwynedd ar gyfer 2010-11.

10. Mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol ardystio hawliadau a ffurflenni grant penodol. Yr Archwilydd Penodedig, gan weithredu fel asiant ar ran yr Archwilydd Cyffredinol, sy'n cyflawni'r gwaith archwilio mewn perthynas â'r hawliadau a'r ffurflenni hynny.

# Y dull archwilio

11. Rhoddir gwybodaeth am dîm yr archwiliad ariannol yn Atodiad 2.

## Archwiliad o ddatganiadau ariannol

12. Caiff rheolaethau mewnol eu cynllunio, eu gweithredu a'u cynnal i fynd i'r afael â risgiau busnes a nodir sy'n bygwth y gallu i gyflawni amcanion y corff a archwilir o ran:
- dibynadwyedd ei adroddiadau ariannol;
- effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd ei weithrediadau;
- ei gydymffurfiaeth â chyfreithiau a rheoliadau cymwys.

13. Byddaf yn:
- asesu effeithiolrwydd rheolaethau mewnol lefel uchel a rheolaethau mewnol lefel systemau allweddol i atal a chanfod gwallau perthnasol yn y datganiadau cyfrifyddu;
- asesu effeithiolrwydd y gwasanaeth Archwilio Mewnol;
- adolygu gwaith a gyflawnwyd gan y gwasanaeth Archwilio Mewnol a cheisio dibynnu arno, fel sy'n briodol;
- datblygu gweithdrefnau cadarn i ymateb i risgiau sylweddol penodol.

14. Nid wyf yn ceisio cael sicrwydd llwyr bod y datganiadau ariannol a'r nodiadau cysylltiedig yn gywir ac yn deg, ond mabwysiadaf gysyniad o berthnasedd. Wrth gynllunio a chynnal yr archwiliad, rwyf yn ceisio nodi camddatganiadau perthnasol yn y datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig, sef y camddatganiadau hynny a allai gamarwain unigolyn sy'n darllen y cyfrifon.

15. Caiff y lefelau a ddefnyddiaf i farnu bod camddatganiadau o'r fath yn berthnasol eu nodi yn fy adroddiad i'r Pwyllgor Archwilio cyn cwblhau'r archwiliad.

## Risgiau archwilio

16. Rhydd Arddangosyn 1 wybodaeth am y risgiau archwilio a nodwyd yn ystod y broses gychwynnol o gynllunio'r archwiliad, yn seiliedig ar wybodaeth sydd ar gael ar hyn o bryd, a'r camau a gynigiwyd i fynd i'r afael â hwy. Efallai y bydd angen newid yr archwiliad os bydd unrhyw risgiau newydd yn codi. Ni wneir unrhyw newidiadau heb eu trafod yn gyntaf â swyddogion a, lle y bo'n berthnasol, y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu.

**Arddangosyn 1: Risgiau archwilio**

| Risgiau sy'n ymwneud â'r amgylchedd rheoli | Camau gweithredu arfaethedig |
|---|---|
| **Cyffredinol**<br>Risg nad yw rheolaethau rheoli ariannol a llywodraethu yn ddigonol, neu nad ydynt yn gweithredu fel y bwriadwyd.<br>Yn benodol, mae'r Cyngor yn wynebu pwysau ariannol sylweddol, gan gynnwys toriadau mewn cyllid a'r hinsawdd economaidd heriol ehangach. | Byddwn yn asesu cadernid trefniadau'r Cyngor ar gyfer y canlynol:<br>• gwaith rheoli ariannol;<br>• gwaith rheoli risg;<br>• gwaith gwrth-dwyll a llygredd;<br>• cwmpas ac ansawdd archwiliadau mewnol. |
| **Risgiau sy'n ymwneud â systemau ariannol** | **Camau gweithredu arfaethedig** |
| **Cyffredinol**<br>Risg nad yw rheolaethau ariannol lefel uchel y Cyngor wedi'u cynllunio nac yn gweithredu yn effeithiol i atal a nodi camddatganiadau perthnasol yn y datganiadau ariannol. | Byddwn yn adolygu cynllun ac yn profi gweithrediad rheolaethau lefel uchel yn:<br>• y brif system gyfrifyddu;<br>• y system rheoli cyllidebol;<br>• y broses o baratoi cyfrifon. |
| **Materion yn codi o'm harchwiliadau blaenorol**<br>Mae sawl mater yn codi o'm harchwiliadau blaenorol lle roedd angen gwneud gwelliannau i reolaethau systemau. Yn arbennig, yr angen i wneud y canlynol:<br>• sicrhau bod y gofrestr asedau sefydlog (at ddibenion cyfrifyddu) yn gyson â'r cofrestrau asedau a gedwir gan adrannau eraill y Cyngor ee, Eiddo;<br>• adolygu cyfrifon personol a chyfrifon crog hirsefydlog a balansau dyledwyr y nodwyd na ellir eu hadennill. | Byddwn yn:<br>• asesu'r rheolaethau sydd ar waith yn ystod 2010-11 ac yn cynnal profion archwilio i ystyried eu cynllun, eu bodolaeth a'r gwaith o'u cynnal a'u cadw;<br>• cynnal gwaith dilynol mewn perthynas ag argymhellion sy'n deillio o'n harchwiliadau blaenorol. |
| **Risgiau sy'n ymwneud â pharatoi'r cyfrifon** | **Camau gweithredu arfaethedig** |
| **Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) a'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol**<br>Y Datganiad o Gyfrifon ar gyfer 2010-11 fydd yr un cyntaf i gael ei baratoi yn unol ag IFRS. Mae hefyd yn ofynnol i'r Datganiad o Gyfrifon ar gyfer 2010-11 gael ei baratoi am y tro cyntaf yn unol â'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol (y Cod).<br>Mae'r Cod, sy'n disodli'r Datganiad o'r Arfer a Argymhellir ar gyfer Llywodraeth Leol, yn seiliedig ar IFRS ond mae hefyd yn cyflwyno newidiadau eraill i ofynion cyfrifyddu a datgelu.<br>Bydd y gofyniad i gydymffurfio ag IFRS a'r Cod yn ei gwneud yn ofynnol i drafodion a balansau 2010-11 gael eu paratoi a'u datgelu ond hefyd i drosi:<br>• mantolen agoriadol 1 Ebrill 2009;<br>• Datganiad o Gyfrifon llawn 2009-10. | I bob pwrpas, rydym wedi cwblhau'r gwaith o archwilio mantolen agoriadol ailddatganedig 1 Ebrill 2009 a throsi cyfrifon llawn 2009-10 ac rydym wedi cyflwyno ein canfyddiadau cychwynnol.<br>Byddwn hefyd yn adolygu fersiwn drafft y Datganiad o Gyfrifon ar gyfer 2010-11 er mwyn sicrhau ei fod wedi cael ei baratoi, ym mhob ystyr berthnasol, yn unol ag IFRS a'r Cod. |

| Risgiau sy'n ymwneud â pharatoi'r cyfrifon | Camau gweithredu arfaethedig |
|---|---|
| **Newidiadau eraill sy'n effeithio ar gyfrifyddu yn 2010-11**<br>Bydd angen i'r Datganiad o Gyfrifon ar gyfer 2010-11 hefyd ystyried newidiadau eraill i'r gofynion cyfrifyddu a datgelu, gan gynnwys y rhai a wnaed mewn perthynas â Rheoliadau Ariannu Cyfalaf a Chyfrifyddu 2010. | Byddaf yn adolygu fersiwn drafft y Datganiad o Gyfrifon ar gyfer 2010-11 er mwyn sicrhau ei fod wedi cael ei baratoi yn unol â datblygiadau a chanllawiau cyfrifyddu eraill. |
| **Materion eraill**<br>Rydym wedi nodi'r risgiau canlynol sy'n gynhenid wrth baratoi'r Datganiad o Gyfrifon ar gyfer 2010-11:<br>• bod y polisïau cyfrifyddu'n cael eu diwygio i roi darlun gwell o'r sefyllfa ariannol;<br>• bod amcangyfrifon cyfrifyddu'n cael eu defnyddio mewn nifer o falansau cyfrifon, megis darpariaethau;<br>• bydd y cyfrifon yn ystyried dyfarniadau a wnaed gan swyddogion o ran sut i roi cyfrif am eitemau neu eu hariannu. | Byddwn yn:<br>• ystyried polisïau cyfrifyddu'r Cyngor a sut y cânt eu cymhwyso;<br>• adolygu'r asesiad blynyddol a wnaed gan swyddogion o'r sail y gwneir amcangyfrifon arni a'r sail y cânt eu hadolygu arni yn unol â'r wybodaeth ddiweddaraf;<br>• adolygu dogfennaeth a ddelir i ategu amcangyfrifon y daethpwyd iddynt a dyfarniadau a wnaed, gan gyfeirio at bapurau a ddarparwyd i'w hategu. |
| **Risgiau sy'n ymwneud â datganiadau ariannol** | **Camau gweithredu arfaethedig** |
| **Trosglwyddo'r Stoc Dai**<br>Ym mis Ebrill 2010, trosglwyddodd y Cyngor ei Stoc Dai, a gweithgareddau cysylltiedig, i Gartrefi Cymunedol Gwynedd.<br>Mae nifer o risgiau ynghlwm wrth gyfrifyddu'r broses o drosglwyddo'r asedau a'r gwasanaethau ac effaith ddilynol hynny ar y Cyngor. | Byddwn yn adolygu'r canlynol:<br>• y broses drosglwyddo ac yn ystyried y goblygiadau ariannol;<br>• y trafodion a'r datgeliadau cyfrifyddu i sicrhau eu bod wedi'u paratoi yn unol â'r canllawiau. |
| **Risgiau sy'n ymwneud â datganiadau ariannol** | **Camau gweithredu arfaethedig** |
| **Cyffredinol**<br>Mae risg y bydd camddatganiadau perthnasol yn y datganiadau ariannol oherwydd gwall neu am fod trafodion, balansau a datgeliadau wedi eu hepgor. | Byddwn yn cynnal cyfres o brofion a gweithdrefnau archwilio i geisio nodi unrhyw gamddatganiadau perthnasol. |

## Y defnydd o adnoddau

17. Er mwyn cyflawni fy nghyfrifoldebau o ran y trefniadau sydd ar waith gan y Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau, byddaf yn dibynnu ar y canlynol:
    - canlyniadau'r gwaith archwilio a wnaed ar y datganiadau ariannol;
    - system rheolaeth fewnol y corff a archwilir, fel y nodir yn ei ddatganiad llywodraethu a'm hadroddiad cysylltiedig;
    - canlyniadau gwaith a gynhaliwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol, gan gynnwys gwaith a gynhaliwyd o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, ardystiadau o hawliadau a ffurflenni ac ymarferion paru data;

- canlyniadau gwaith cyrff adolygu allanol eraill, lle y bo hynny'n berthnasol i'n cyfrifoldebau;
- unrhyw waith arall sy'n ymdrin â materion nas cwmpesir gan yr uchod, ac yr wyf o'r farn ei fod yn angenrheidiol i gyflawni fy nghyfrifoldebau.

## Cyflwyno adroddiadau

18. Mae'r Cod Ymarfer Archwilio a gyhoeddwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol yn ei gwneud yn ofynnol i Archwilwyr Penodedig gydymffurfio â safonau archwilio a moesegol. Mae Safonau Archwilio Rhyngwladol yn ei gwneud yn ofynnol i adroddiadau ffurfiol gael eu cyflwyno ar gamau amrywiol yn ystod yr archwiliad i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu.
19. Yn benodol, rhaid i archwilwyr nodi'r canlynol:
    - cydberthnasau a all effeithio ar annibyniaeth yr archwilydd;
    - gwybodaeth am gynllunio'r archwiliad;
    - materion penodol i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu (sy'n wahanol i reolwyr) cyn iddynt roi barn ar y datganiadau ariannol.
20. Mae Atodiad 1 yn tynnu sylw at elfennau allweddol o'r gwaith archwilio yng Nghyngor Gwynedd, ac mae'n cadarnhau nad oes unrhyw fygythiadau hysbys i annibyniaeth yr Archwilydd Penodedig nac i staff archwilio eraill.
21. Rhydd y ddogfen hon wybodaeth am gynllunio'r archwiliad.
22. Byddaf yn cyflwyno adroddiadau i'r Pwyllgor Archwilio a, lle y bo angen, i'r Cyngor mewn modd amserol, cyn cwblhau'r archwiliad.
23. Byddaf yn darparu adroddiadau, neu allbwn arall, fel y cytunir arnynt. Nodir y cerrig milltir allweddol yn Arddangosyn 2.

**Arddangosyn 2: Cerrig milltir allweddol**

| Yr hyn y bwriedir ei gyflawni | Dyddiad Targed |
|---|---|
| Amlinelliad o'r Archwiliad Ariannol | Mai 2011 |
| Asesiad blynyddol o'r gwasanaeth Archwilio Mewnol | Mai 2011 |
| Adroddiad ar ddatganiadau ariannol i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu | Medi 2011 |
| Barn ar y Datganiadau Ariannol | Medi 2011 |
| Llythyr Archwilio Blynyddol | Tachwedd 2011 |

## Ffi archwilio

24. Y ffi arfaethedig ar gyfer gwaith archwilio ariannol 2010-11 yw £171,516 (ynghyd â TAW) ac fe'i codir mewn rhandaliadau cyfwerth rhwng mis Tachwedd 2010 a mis Hydref 2011. Mae'r ffi hon yn unol â llythyr ffioedd yr Archwilydd Cyffredinol ac mae'n seiliedig ar y model ffioedd newydd sy'n seiliedig ar sero ar gyfer archwiliadau ariannol.
25. Yn gyffredinol, mae ffi archwilio ariannol 2010-11 yn cynrychioli lleihad o 3.5 y cant ar elfen gyfatebol cyfrifoldebau'r Archwilydd Penodedig a gynhwyswyd fel rhan o'm ffi ar gyfer 2009-10, sef £177,791.
26. Mae'n ofynnol i mi gynnal gwaith archwilio ychwanegol yn deillio o'r newid i IFRS. Rwyf wedi penderfynu mynd i'r costau hyn fy hun heb eu trosglwyddo i'r Cyngor.
27. Dim ond un gwrthwynebiad ffurfiol a gafwyd i ddatganiadau ariannol y Cyngor yn ystod y blynyddoedd diweddar. Fodd bynnag, caf nifer o ymholiadau ac eitemau o ohebiaeth gan y cyhoedd a phartïon eraill â diddordeb. Mae ychydig o amser wedi'i gynnwys yn y ffi i ymdrin â mân ymholiadau, fel rhan o'r broses gyffredinol o reoli'r archwiliad.
28. Bydd unrhyw ymchwiliadau manwl neu waith arall sydd angen ei gyflawni i ymateb i ymholiadau a gwrthwynebiadau yn arwain at ffi ychwanegol. Caiff unrhyw ffi ychwanegol o'r fath ei chodi ar gyfraddau dyddiol yn seiliedig ar y radd benodol neu'r cymysgedd sgiliau sydd eu hangen ar gyfer y gwaith, ond caiff hyn ei drafod gyda'r Pennaeth Cyllid cyn dechrau'r gwaith.
29. O ran pob grant neu ffurflen, mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol adennill swm sy'n cwmpasu cost lawn y gwaith perthnasol a gyflawnir. Caiff y ffi ar gyfer gwaith ardystio grantiau a ffurflenni ei chodi ar sail ddyddiol, yn unol â'r graddfeydd ffioedd sy'n ymwneud â sgiliau a nodir yn llythyr ffioedd llywodraeth leol yr Archwilydd Cyffredinol. Bydd y ffioedd yn adlewyrchu maint, cymhlethdod a materion neilltuol y grantiau penodol.
30. Er bod gwaith grant yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn, ar sail profiad blaenorol ac arwyddion cynnar o newidiadau mewn cynlluniau ac amodau grant, amcangyfrifaf y bydd cyfanswm ffi'r gwaith grant rhwng £90,000 a £120,000.

## Atodiad 1

# Elfennau allweddol o'r gwaith archwilio

| Elfennau allweddol | Gofynion | Sefyllfa Cyngor Gwynedd |
|---|---|---|
| **Gweithgareddau ymgysylltu** | | |
| Telerau'r gwaith archwilio | Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn nodi'r cyfrifoldeb am benodi archwilwyr allanol ar gyfer llywodraeth leol yng Nghymru. | Nodir rolau a chyfrifoldebau archwilwyr penodedig uchod ac yn Atodiad 1.<br>Gellir gweld y datganiad llawn o gyfrifoldebau yn:<br>http://www.wao.gov.uk/assets/welshdocuments/statement_of_responsiblities_of_auditors_cym.pdf |
| Penodi archwilwyr a phartneriaid ymgysylltu | Cyfrifoldeb yr Archwilydd Cyffredinol yw penodi archwilwyr allanol llywodraeth leol a phennu cyfrifoldeb am bob ymgysylltiad i bartner ymgysylltu. | Rhoddir manylion yr Archwilydd Penodedig a'r Arweinydd Ymgysylltu yn Atodiad 2 i'r ddogfen hon. |
| Gwaith 'anstatudol' | Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi nodi meini prawf clir ar gyfer cymeradwyo unrhyw waith 'anstatudol' y gofynnir amdano gan gyrff a archwilir. | Ni ofynnwyd am unrhyw waith 'anstatudol' ac nid oes unrhyw waith o'r fath yn yr arfaeth. |
| Cyfyngiadau ar waith archwilio | Mae'n ofynnol i mi eich hysbysu am unrhyw gyfyngiadau ar y gwaith rwy'n bwriadu ei gyflawni, gan gynnwys cyfyngiadau a osodir gan reolwyr. | Ni osodwyd unrhyw gyfyngiadau ar y gwaith rwy'n bwriadu ei gyflawni. |
| **Ystyriaethau moesegol** | | |
| Annibyniaeth | Mae'n ofynnol i archwilwyr penodedig ystyried y canlynol:<br>• bygythiadau i annibyniaeth yr archwilydd (gan gynnwys ymgyfreitha);<br>• cydberthnasau teuluol a chydberthnasau personol eraill;<br>• cysylltiad hirdymor â'r corff a archwilir, yn seiliedig ar bolisi Swyddfa Archwilio Cymru o gylchdroi archwiliadau;<br>• materion dadleuol neu anodd. | Gallaf gadarnhau nad oes unrhyw fygythiadau hysbys i annibyniaeth yr Archwilydd Penodedig na staff archwilio eraill, ac fy mod wedi cydymffurfio â pholisi cylchdroi Swyddfa Archwilio Cymru. |
| Perfformiad ymgysylltu | Mae angen i bartneriaid ymgysylltu ystyried pa lefel o sicrwydd ansawdd a lefelau adolygu sy'n briodol. | Mae gweithdrefnau adolygu trefniadau rheoli ansawdd Swyddfa Archwilio Cymru ar waith ar gyfer pob archwiliad, ac mae'r Partner Ymgysylltu wedi pennu lefelau adolygu priodol yn seiliedig ar brofiad y staff sy'n gwneud y gwaith archwilio. |

Atodiad 2

# Tîm yr archwiliad ariannol

**Tîm yr archwiliad ariannol**

| Enw | Rôl | Rhif Cyswllt | Cyfeiriad e-bost |
|---|---|---|---|
| Anthony Barrett | Archwilydd Penodedig ac Arweinydd Ymgysylltu | 07771 505882<br>02920 320685 | Anthony.Barrett@wao.gov.uk |
| Amanda Hughes | Rheolwr yr Archwiliad | 07969 919986<br>01286 679974 | Amanda.Hughes@wao.gov.uk |
| Alan Hughes | Arweinydd Tîm | 07791 411985<br>01286 679158 | Alan.Hughes@wao.gov.uk |

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ
Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660
E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk